Ymgynghoriaeth GWYNEDD Consultancy YGC

# Newyddlen Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC

3

Rhagfyr 2023













## Croeso i Rifyn 3 o Newyddlen Staff Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC




### Neges gan Steffan

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i chi am yr holl waith sydd wedi ei gyflawni dros y flwyddyn.

Mae'r flwyddyn olaf wedi mynd heibio yn sydyn iawn ac ar adegau wedi cyflwyno heriau, ond gyda'n gilydd yr ydym yn llwyddo. Rwyf hefyd am fanteisio ar y cyfle i rannu dyfyniad gan Kevin Sinfield yn ystod ei Her 7 mewn 7 'os ydym yn gwneud i bobl ofalu ychydig yn fwy am ei gilydd, yna byddai gennym le llawer gwell i fyw'

Dymunaf Nadolig Llawen iawn i chi a Blwyddyn Newydd Dda.


Tudalen 2 - Cyflwyniad
Tudalen 3 - Cwrs Golff Gwallgo Porthmadog
Tudalen 4 - Gwasanaeth Edrychiad Stryd
Tudalen 5 - Graeanu
Tudalen 6- Hysbysiad
Tudalen 7 - Gwaith Arbennig
Tudalen 8 - Diwrnod difyr gyda Grŵp Hogan
Tudalen 9 - Croesawu Staff Newydd
Tudalen 10 - Gwybodaeth Ychwanegol
Tudalen 11 - Amgueddfa Treftadaeth Menai
Tudalen 12 - Peiriant Raymo
Tudalen 13- 14 -Camoliaeth
Tudalen 15 - Derbynfa Penrallt ar Agor!
Tudalen 16 - Tim Cynnal Tiroedd
Tudalen 17-18 - Prosiect Cei Aberdyfi
Tudalen 19 - YGC


**Oes gennych chi stori diddorol ar gyfer y rhifyn nesaf?**

Cysylltwch gyda -

ElliwJonesEvans@gwynedd.llyw.cymru

# Technoleg Cymraeg

Dyma ddolen at lyfryn sy'n esbonio sut mae Cysgliad, Word, a'r Porth Termau yn helpu efo ysgrifennu Cymraeg.

**Cliciwch ar y llun i ddysgu!**



# Cwrs Golff Gwallgo Porthmadog



**Steven Edwards**
**Rheolwr Teledu Cylch Cyfun (TCC) a Gwaith Bwrdeistrefol**

**“Roedd da gweld y safle yn ôl yn agored ac yn cael ei werthfawrogi“ dwedodd Steffan Jones.**

Cynharach yn y flwyddyn bu i gwrs ‘Golff Gwallgo’ Porthmadog ail agor i’r cyhoedd ar ôl gwelliannau.

Buddsoddwyd oddeutu £25k i wella a moderneiddio’r cyfleusterau sydd yn ganol tref Porthmadog ger y parc. Agorwyd y cwrs golff yn wreiddiol tua 20 mlynedd yn ôl , ac mae'n denu dipyn o bobl i gael hwyl wrth ymweld â Phorthmadog.

Tîm Gwasanaeth Cynnal Tiroedd sy’n gyfrifol am redeg a chynnal y cwrs o Pasg i’r Haf .

Dywedodd Steven Edwards “ Mae’n bleser gweld y buddsoddiad yma yn y cwrs wedi ei gwblhau , ag rwy’n falch iawn bod pobl leol ag ymwelwyr yn cael budd o’r cyfleusterau.”

"Hoffwn yrru atoch i ddiolch yn fawr iawn am y gwaith sydd wedi ei wneud gan yr adran i ddod a 'r parc "yn ôl yn fyw".

Roed hi yn werth gweld yr holl deuluoedd hefo'i plant bach yn cael amser gwych gyda'r golff gwallgof a 'r parc chwarae.

Roedd hwn yn brosiect gwerth chweil a diolch eto ar ran y dref." gan Gwilym Jones, Cynghorydd Gwynedd.






Cwrs yn ei newydd wedd

# Gwasanaeth Edrychiad Stryd

Mae Tîmau Gorfodaeth, Glanhau a Thacluso wedi uno i ffurfio Gwasanaeth Newydd

## Tîm Gorfodaeth Stryd

Mae'r Tîm Gorfodaeth Stryd yn cynorthwyo i sicrhau trefniadau gorfodaeth effeithiol, ar gyfer gwasanaethau stryd a rheoli gwastraff yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol, er mwyn lleihau troseddau amgylcheddol i wella ansawdd yr amgylchedd lleol.




Dyma lun o Owen Hefin Roberts, Warden Diogelu Mannau Cyhoeddus yn gosod arwydd baw cwn ar bromenâd Pwllheli.

## Tîm Glanhau Strydoedd


Yn y bore mae dal hi!

Mae ein criw Glanhau Strydoedd yn gweithio'n galed yn gynnar bob bore yn paratoi'r strydoedd ar gyfer ein diwrnodau prysur.

Mae'n ddiddorol gweld yr holl baratoi sy'n cael ei wneud gan ein tîm pan mae pawb dal yn eu gwelyau.



Dyma lun o griw Glanhau Strydoedd ar Stryd fawr Bangor ben bore.



Dyma lun o griw Glanhau Strydoedd ar Faes Caernarfon ben bore.

## Tim Tacluso

Tîm Tacluso ArdalNi

Fe dderbyniodd Tîm Tacluso Ardal Ni grant o £21,525.00 i bwrcasu peiriannau arbenigol glanhau gwm cnoi oddi ar strydoedd Gwynedd.

Mae'r grant gan y 'Chewing Gum' Task Force a weinyddir gan yr elusen amgylcheddol 'Keep Britain Tidy', wedi'i anelu at fynd i'r afael â phroblemau sbwriel gwm cnoi a problemau staenio.



Alan, Dion a Gareth



Y tîm ym Mangor



Tim yn Porthmadog



Gosod Arwyddion

# GRAEANU

TÎM PRIFFYRDD



## Loriau Graeanu newydd wedi cyrraedd Depo Cibyn

**Yn ddiweddar, croesawodd Depo Cibyn 3 lori graeanu sydd wedi dychwelyd o'r Iwerddon ar ôl trosglwyddo'r corff 'stainless steel' i siasi newydd sbon.**

Mae'r tîm yn brysur ac yn gweithio'n galed i baratoi ar gyfer y Gaeaf. Rydym yn sicrhau bod ein loriau graeanu yn addas a diogel ar gyfer ei defnyddio, er lles ein gweithwyr a'r cyhoedd. I sicrhau hyn, bydd gwaith adnewyddu yn cael ei wneud yn flynyddol ar ein loriau graeanu.

Oherwydd y datguddiad cyson (constant exposure) i halen graeanu mae siasi'r loriau fel arfer yn cael ei adnewyddu bob saith mlynedd gyda'r corff "stainless steel" yn cael ei osod ar siasi newydd i'w adfer.

Mae'r loriau Graeanu yn cael eu heffeithio fwyaf gan gyrydiad (corrosion) gan fod yr hopper yn dal halen, sy'n cyflymu'r broses gyrydu ar fetelau. Er bod ein hoffer 'stainless steel' wedi'i ddiogelu'n well na 'bare steel', nid yw'n imiwn rhag cyrydiad pan fydd yn agored i halen dro ar ôl tro am gyfnodau byr ac estynedig o amser.



Depo Cibyn

Wrth i'r tywydd droi yn wlyb ac yn oer byddwch yn wyliadwrus wrth yrru o gwmpas.

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn a'r trefniadau graeanu ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd, a bydd diweddariad yn cael ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Diolch yn fawr i'r holl dîm am eu gwaith caled i gadw ein ffyrdd ar agor ac yn ddiogel.

Ymgynghoriaeth GWYNEDD Consultancy YGC



# Mae'r Tîm Datblygu Busnes yma ar eich cyfer chi!

Mae ein gwasanaeth Dylunio Graffeg ar gael er mwyn darparu gwasanaeth o'r safon uchaf i holl dimau YGC ac i gwrdd â gofynion Cleientiaid.

## Mae ein gwasanaethau yn cynnwys:

- Taflenni gwybodaeth a Posteri
- Post Cyfryngau Cymdeithasol / Eitem newyddion
- Tynnu lluniau safon uchel
- Fideos byr gan gynnwys 'time lapse'
- Delweddau
- Tudalen gwefan ar gyfer Prosiect

I anfon gwaith at yr Uned Datblygu Busnes neu weld beth all gynnig i chi, cysylltwch gydag Elgan Jones elganjones@gwynedd.llyw.cymru



# Gwaith Arbennig!

## Eira Roberts

### Aelod Tîm Glanhau Strydoedd

Eira ydi'r unig ferch sydd yn gweithio i'n tîm Gwasanaeth Edrychiad Stryd ar hyn o bryd, ac yn cael llawer o ganmoliaeth am ei gwaith ardderchog.

Ers i Eira gychwyn gyda'r tîm, mae hi wedi helpu gymaint gyda gwella edrychiad cymunedau Arfon sydd wedi cael ei adnabod gan nifer o bobl.

Mae llawer o adborth wedi cael ei adrodd i'r tîm gan y cyhoedd am y newid amlwg sydd i'w weld yn ein cymunedau.  Mae Eira yn weithiwr caled ac brwdfrydig sydd yn aelod gwych o'n tîm Glanhau Strydoedd.

Da iawn Eira a diolch yn fawr am dy holl waith caled rwyt ti a'r tîm yn ei wneud.



Llun Eira ym Mangor gyda'i fan Gwasanaeth Edrychiad Stryd



Llun o Eira yn gweithio ym Mangor

## Buddiannau Staff

Mae Ffordd Gwynedd yn son am roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Rydym yn llawn sylweddoli mai chi, ein staff sydd wrth wraidd cyflawni hyn. Dyma becyn o fuddiannau sy'n diolch i chi am eich gwaith caled.

Mae amrediad eang o gynigion ar gael i chi, o ein cynllun pensiwn cystadleuol, arbedion ar brynu ceir gwyrdd a beiciau i ddisgownt mewn siopau lleol led led Gwynedd a thu hwnt... mae rhywbeth i bawb gan Budd i Bawb.

Cliciwch yma i fynd mewn i'r fewnrwyd.



# Diwrnod difyr gyda Grŵp Hogan



Bethany Griffiths

**Roedd Bethany Griffiths, Peiriannydd Cynorthwyol YGC yn ffodus iawn i fod yn dyst i gynhyrchu asffalt wedi'i ailgylchu yn ddiweddar.**
**Ymwelodd â Chwarel Hogan Caer Glaw yng Ngwalchmai ble maent yn prosesu'r 'planings' trwy'r malwr i gael deunydd cynnyrch cyson 10mm i lawr.**



Cynhyrchu asffalt wedi'i ailgylchu

**Yna, ymlaen i safle cynhyrchu asffalt Hogan ym Mangor i weld cynhyrchu asffalt ffres gyda RAP (Reclaimed Asphalt Pavement) yn rhan o'r cynhyrchiad.**
**Yn olaf, ar ôl gwylio'r cynnyrch yn cael ei wneud, fe wnaethom ddilyn y wagenni asffalt poeth i safle Hogan yn Nolwyddelan ble roedd wyneb newydd yn cael ei osod yn defnyddio'r cynnyrch.**

**Wel am ymweliad gwych, agoriad llygad!**
**Diolch i bawb a gyfrannodd at y diwrnod hwn, yn enwedig Grŵp Hogan. Rydym mor ffodus i'w gael ar garreg ein drws ac yn edrych ymlaen at weld mwy o safleoedd lleol gobeithio yn defnyddio asffalt corfforedig RAP.**
**Roedd aelodau o staff o Lywodraeth Cymru, NMWTRA, yr Adran Priffyrdd a YGC yn bresennol.**




Peiriant asfflat yn Nolwyddelan

# Croesawu Staff Newydd



## Darryl Jones

### Warden Gorfodaeth Stryd

Helo, fy enw i yw Darryl, a chefais fy mhenodi'n Warden Gorfodaeth Stryd ym mis Mai eleni.

Mae fy nyletswyddau'n cynnwys patrolio ardal Arfon (ar droed a symudol) i orfodi cyfreithiau mewn perthynas â baw cŵn, taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon ymhlith troseddau eraill.

Rwy'n mwynhau'r gwaith hwn yn fawr iawn ac rwy'n falch iawn o fod yn aelod o'r tîm gorfodi proffesiynol clos.

Cyn ymgymryd â'r swydd bresennol, bûm yn gweithio i "Haven Holidays" fel Gweinyddwr Pobl (AD) a chyn hynny roeddwn yn Filwr yn y Fyddin Brydeinig am 25 mlynedd, yn gweithio ym maes Adnoddau Dynol, Tâl a Chyllid.

Yn ddiweddar, mae fy ngwraig a minnau wedi prynu hen dŷ sydd gwir angen ei adnewyddu. Tra bod hynny'n cymryd llawer o'n hamser sbâr mae gennym ni hefyd 2 gi, "Nwdls" a Daisy" sydd hefyd yn ein cadw ni'n brysur iawn!



Llun Darryl yn rhoi dirwy ger Castell Caernarfon

## Matthew Luke Williams

### Warden Gorfodaeth Stryd Dros Dro

Helo, Matthew ydi fy enw i, ac ym mis Mai cefais fy mhenodi fel Warden Gorfodaeth Stryd. Cyn y swydd yma roeddwn yn gweithio fel achubwr bywyd yng nghanolfan hamdden Glaslyn ym Mhorthmadog. Hefyd roeddwn yn 'Special Constable' i Heddlu Gogledd Cymru am dros ddwy flynedd.

Dwi yn gefnogwr mawr o dîm pêl droed Lerpŵl a Chymru. Mi fyddai yn dilyn Cymru i bob man, ddim ots be ydi'r canlyniadau.

Yn fy amser fy hun fyddai yn dyfarnu gemau pêl droed dros arfordir Gogledd Cymru. Hefyd fyddai yn chwarae golff ar y penwythnos, rwyf yn aelod o glwb golff Caernarfon ers mis Ebrill.

Mi ydw i'n ddiolchgar dros ben i bawb dwi wedi eu cyfarfod hyd yn hyn yn fy swydd newydd. Mae pawb wedi bod yn groesawus iawn gyda fi.




Llun Matthew ym Maesgeirchen



Matthew yn ei waith

# Gwybodaeth Ychwanegol

## Cystadleuaeth Golff PP/YGC

Cynhaliwyd gystadleuaeth golff cyntaf PP/YGC ar ddydd Gwener y 6ed o Hydref yng Nghaernarfon ble wnaeth 19 o golffwyr dewr wynebu'r elfennau. Gyda gwyntoedd yn tynnu at 30 milltir yr awr ac yn wlyb dan draed nid oedd yr amgylchiadau yn ddelfrydol i gael sgôr dda. Ond ar ôl slog o 4 awr daeth tri i fewn gyda sgôr o 35. Gwych!

Wedi'r cardiau gael adolygiad gan y dyfarnwr yr enillydd ar "card play-off" oedd Tomos Lloyd (YGC) oddi ar handicap o 12. Yn ail oedd John Rhys Jones (YGC) oddi ar 10 ac yn drydydd Iwan Janos Kojs (Priffyrdd) ar 4. Llongyfarchiadau i'r tri ohonoch a diolch i bawb arall wnaeth yr ymdrech. Gobeithio bydd y tywydd yn well blwyddyn nesa.




**Enillydd - Tomos Lloyd**


Os oes gennych ddiddordeb mewn diwrnod allan i chwarae golff, mae croeso i staff yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ymuno a chriw YGC sydd wedi bod yn mynd am gemau achlysurol, ac unwaith y flwyddyn yn cael cystadleuaeth y gwasanaeth fydd nawr yn cynnwys staff yr holl adran.

Mae croeso i chi gysylltu gyda Robert Aled Williams os oes diddordeb.
Bydd manylion pellach am y gystadleuaeth yn cael ei rannu yn amserol.



Llun - Simon, Rhys, Robert a Rhydian o YGC - Clwb Golff Nefyn 2022

# Amgueddfa Treftadaeth Menai



Prosiect cymunedol yw Treftadaeth Menai sydd yn ymwneud â'r ddwy bont enwog sydd yn ein hardal sef ; Pont Borth, a adeiladwyd gan Thomas Telford a Phont Britannia a adeiladwyd gan Robert Stephenson.



"Mae'n hamgueddfa drwyddedig yn llawn o ddarnau hanesyddol, lluniau, ffilmiau, cwisiau ac arweinwyr profiadol i'ch tywys o gwmpas. Gallwch gymryd tro dros Bont y Borth ac oddi tani a cewch weld y llewod ar Bont Britannia. Gallwch hefyd adeiladu eich pontydd eich hun a phrofi'ch gwybodaeth. Dewch i gael hwyl yn darganfod mwy am yr ardal arbennig yma gyda'i phontydd byd-enwog a'i pheirianwyr arloesol, a cewch gyfle i grwydro tref hanesyddol Porthaethwy a'r ardal hudolus hyd lan y dŵr.



Mae Canolfan Telford ar agor yn dymhorol; cewch yr union amseroedd ar y wefan. Gallwch hefyd gadw llygad am ddigwyddiadau arbennig neu gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddfa i drefnu ymweliad arbennig i grwpiau".
**www.menaibridges.co.uk**

## Cyfle i Wirfoddoli

Ydych chi'n ystyried cyfleoedd i wirfoddoli? Mae Treftadaeth Menai(sydd yn amgueddfa ac elusen cydnabyddedig) yn chwilio am wirfoddolwyr.
Mae'r gwirfoddolwyr yn hanfodol i lwyddiant yr amgueddfa ac fe werthfawrogir eu cyfraniad yn fawr iawn. Am fwy o wybodaeth, ewch ar ei gwefan

## Chwilio am anrheg Nadolig arbennig?



Edrychwch ar siop ar-lein Treftadaeth Menai am ystod o lyfrau.

Cynnig arbennig ar set o 4 llyfr dwyieithog i blant - Llewod Britannia/Lions of Britannia Bridge - dim ond £20 (a P&P) am y set lawn.



# Buddsoddi er budd ein gweithwyr, Trigolion Gwynedd a’r Amgylchedd - Peiriant Raymo


Teclyn newydd torri gwellt yn Ysgol Glan Cegin

Wedi pum mlynedd a mwy o ymchwil a threialu peiriannau Batri/ Trydan sydd yn meddu ar dechnoleg rheoli o bell “remote control”, bu i Geraint Wyn Hughes Uwch Swyddog Cynnal Tiroedd ddod yn ymwybodol o’r cwmni Raymo tra ar ymweliad a Sioe Saltex .

Yn dilyn treialu'r peiriant yn ddiwedd Mehefin a derbyn adborth positif gan y gweithlu, bu i’r gwasanaeth Cynnal Tiroedd bwrcasu peiriant Raymo sydd yn rhan o gwmni Iseki lle mae nifer o’u peiriannau ar ddefnydd gyda'r gwasanaeth Cynnal Tiroedd.

Pwrcaswyd y peiriant drwy gyflenwr lleol oddi fewn i Wynedd.

## 7 Ffaith Ddiddorol am Beiriant ‘Raymo’

1. Mae’r peiriant yn gwarchod ein gweithwyr wrth weithio ar lethrau.
2. Gyda lefel sŵn isel, mae’r teclyn yn addas i’w ddefnyddio mewn Ysgolion, Cartrefi Preswyl, Mynwentydd a’r Amlosgfa.
3. Gellir defnyddio’r peiriant ger ochrau ffyrdd, ymylon llynnoedd ag afonydd.
4. Gellir sefyll hyd at 50 medr o fan gwaith y peiriant mewn man diogel i’w reoli.
5. Mae’r peiriant yn cael ei yrru gan fatri, felly nid oes allyriadau yn cael eu rhyddhau i’r amgylchedd.
6. Nid oes dirgryniad ysgerbydol yn cael ei drosglwyddo i’r gweithiwr.
7. Mae’r peiriant yn lleihau lefel risg i’r gweithlu, Trigolion Gwynedd a’r Amgylchedd.

Peiriant Raymo yn torri gwellt yn Ysgol Glan Cegin




# CAMOLIAETH


TÎM BWRDEISTREFOL








**Diolch i Alun - Swyddog Glanhau Toiledau Ganllwyd**

Mae Alun, y glanhawr toiledau yn Ganllwyd, wedi derbyn clod haeddiannol am ei waith yn glanhau.  Dyma gerdyn hyfryd a adawyd iddo yn Ganllwyd gan ddefnyddwyr clên oedd yn sypreis neis iddo ben bore.

**Diolch i Sian - Swyddog Glanhau Toiledau Dinas Dinlle**

Hefyd derbyniwyd 'Twix' Sian Pierce Owen swyddog glanhau, neges hyfryd pan oedd yn gweithio yn toiledau Dinas Dinlle.

"Hoffwn ddiolch i warden am ei waith o gadw'r toiledau yn Dinas Dinlle yn lân. Yr oeddwn wedi bod yn nofio a chadwodd y drysau'n gored i mi er fy mod yn hwyr yno. Diolch yn fawr iawn!"

"Hoffwn ddiolch i bwy bynnag sy'n glanhau a chynnal y bloc toiledau ar draeth Dinas Dinlle. Roeddent yn lân iawn ac nid oeddent yn arogli'n ofnadwy fel bron pob toiled cyhoeddus y dyddiau hyn. Da iawn chi am doiledau gwych" - Dafydd Jones.

**Mae'r swyddog yn gwneud gwaith gwych ac mae'n galonogol derbyn adborth positif!**

# CAMOLIAETH

TÎM BWRDEISTREFOL




Ym Mharc y Dre, Caernarfon, mi welwch fod y 9 acer o dir a'r llyn wedi'u gweddnewid dipyn yn ddiweddar. Mae gwaith ardderchog wedi cael ei wneud gan Adran Priffyrdd Bwrdeistrefol i geisio dod a bywyd yn ôl i'r parc. Oedd ar un adeg yn atyniad poblogaidd i blant, oedolion ac ymwelwyr.

Mae'r gwaith yn parhau yn y parc ac mae'r gwaith torri tyfiant a thacluso wedi cael ei wneud.

**Amanda Murray**
**Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol**






> Dywedodd Amanda Murray "Ein bwriad yw ei wneud yn lleoliad poblogaidd, braf a diogel i bawb fynd yno i fwynhau eu hunain."

# Derbynfa Penrallt ar Agor!




‘Rydym yn hapus iawn i gyhoeddi bod derbynfa Penrallt ar agor!
Bydd hyn yn helpu llawer gyda hwyluso ymwelwyr a chwsmeriaid i mewn i’r adeilad a hefyd unrhyw ddanfoniad i’r swyddfeydd. Croesawn ein Cynghorwr Cyswllt Cwsmer newydd sef Lauren Anne Jones i’r tîm, edrychwn ymlaen i gael gwedd newydd i’n derbynfa!

“Haia! Lauren dwi, o Fethel yn wreiddiol cyn symud i Gaernarfon yn 2005.

Mi wnes i astudio ym Mhrifysgol Bangor yn 2016 efo gradd mewn Astudiaethau Cyfryngau. Dwi wedi gweithio mewn sawl diwydiant gwahanol dros y blynyddoedd gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, celfyddydau, gweinyddu ac wrth gwrs fel derbynnydd.
Yn 2018 penderfynais i gymryd toriad rhwng swyddi i deithio, felly wnes i weithio/byw yn Awstralia am flwyddyn ac wedyn teithio am 2 fis o amgylch Asia, gan weld Thailand, Fietman, Malaysia, Singapôr a Cambodia. Ond rhaid i fi ddweud, roedd y bwyd yn ffantastig! Fy niddordebau ydi mynd am dro, creu gwaith celf neu graffeg, gweld ffrindiau, teulu neu deithio! Dwi’n creu llawer o waith celf yn fy amser sbâr, ac yn mwynhau peintio a darlunio.



Lauren Anne Jones

Dwi’n ffodus o dderbyn swydd fel Cynghorwr Cyswllt Cwsmer gyda YGC. Dwi wedi treulio 3 wythnos yn Siop Gwynedd yn cysgodi’r tîm cyn i fi dechrau gweithio yn nerbynfa Penrallt, felly dw i’n edrych ymlaen at ddod i adnabod pawb (Ond gennai dipyn o enwau i drio cofio sori!)”

# Tîm Cynnal Tiroedd



Gwaith paratoi'r tir ym Mharc Chwarae Bodawen ym mis Chwefror 2022 gan y Tim



Blodau gwyllt wedi ffynnu ym Mharc Chwarae Bodawen ym mis Mehefin 2023









## Datblygu glastir drwy wasgaru glaswellt gwyrdd yn llawn rhywogaeth

Mae cynyddu'r niferoedd o ddolau blodau a lleiniau gwyrdd wedi ei adnabod fel ffordd wych o gynyddu bioamrywiaeth a chysylltedd natur.

Fel rhan o raglen Llefydd Lleol i Natur, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn datblygu ac yn hyrwyddo lleiniau o flodau gwyllt mewn lleoliadau penodol ar draws y sir.

Mae'r gwaith yma yn rhan o brosiect gan y Cyngor lle mae'r drefn o reoli ymylon ffordd a lleoliadau gwyrdd yn cael ei newid i greu coridorau ar gyfer natur.

Dyma'r gwaith casglu sydd wedi digwydd yng Nghae Chwarae Bodawen yn ddiweddar gan y Tîm Cynnal Tiroedd. Gellir ymgymryd ar waith o wella a chryfhau'r glastir a ellir eu galw yn ardaloedd derbynnydd "Receptor" drwy eu paratoi i fod yn llecynnau i dderbyn y dull o hadu, yn defnyddio'r glaswellt gwyrdd "green hay" fel gellir cadw tarddiad "provenance" yr had yn lleol.

Bydd gofyn bod y glaswellt presennol wedi eu torri yn fyr a'u gasglu o safle ag unrhyw chwyn wedi eu codi ymaith.

Bydd gofyn o leiaf bo 50% or wyneb yn bridd i dderbyn y glaswellt ar had ar y diwrnod. Mae'r amseriad o dorri'r glaswellt or ardaloedd Rhoddwr "Donor" yn holl bwysig ynghyd ar ddull o dorri a chasglu a gwasgaru. Yr amser delfrydol yw canol Gorffennaf i ddechrau Awst.

Y camau pwysicaf yw bod y glaswellt yn cael ei dorri gyda'r lleiafswm o aflonyddwch ag yn cael eu gasglu /balio mor fuan â phosib a'u drosglwyddo i safle'r Derbynnydd cyn i'r byrnau ddechrau cynhesu. Os bu i'r byrnau gynhesu gellir i hyn ddifrodi'r had a llwyddiant yr ymdrech.

Gellir agor y byrnau drwy eu rowlio allan ac wedyn gwasgaru/ taenu'r glaswellt dros y wyneb y tir i greu gorchudd ysgafn dros y llecyn. Mewn tywydd sych gellir gadael y glaswellt ar y wyneb am dridiau, tywydd gwlyb yn ychydig yn hwyrach.

# PROSIECT CEI ABERDYFI



Agoriad swyddogol Cei Aberdyfi ar ei newydd wedd.

Mae'r gymuned leol yn ne Meirionnydd wedi dod ynghyd i ddathlu cwblhau gwaith strwythurol sylweddol ar ddau adnodd allweddol, sef Cei Aberdyfi a phont droed Bryn Llestair.

Cynhaliwyd agoriad swyddogol y cei a'r bont ddydd Mercher, 15 Tachwedd yn dilyn gwaith sylweddol fydd yn sicrhau y byddant ar gael i'w defnyddio am flynyddoedd i ddod, gan ddod a mwyniant i bobl leol ac ymwelwyr.

Cwblhawyd prosiect gwerth tua £4 miliwn gan Gyngor Gwynedd yn y cei i adnewyddu'r wal bresennol, ail-wynebu a gwella mynediad i fewn ac allan o'r dŵr ar gyfer yr holl ddefnyddwyr. Ariannwyd y cynllun ar y cyd gan Raglen Rheoli Risg Arfordirol Llywodraeth Cymru a Chynllun Rheoli Asedau Cyngor Gwynedd.

Er fod y gwaith ar bont Bryn Llestair yn y dref wedi ei gwblhau ers oddeutu blwyddyn, manteisiwyd ar y cyfle i ddathlu codi pont newydd sbon i gymryd lle yr hen strwythur oedd wedi bod ar gau ers rhai blynyddoedd oherwydd ei chyflwr gwael a pheryglus.



Aelod Lleol Cyngor Gwynedd - Dewi Owen



Agoriad swyddogol Cei Aberdyfi




Agoriad swyddogol Pont Bryn Llestair

Mae’r bont – sy’n cael ei hadnabod gan rai yn lleol fel pont Ynys Picnic – yn croesi rheilffordd y Cambrian ac yn cysylltu Aberdyfi â’r bryniau cyfagos.

Dywedodd y Cynghorydd Berwyn Jones, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy’n gyfrifol am Wasanaeth PP/YGC, oedd yn arwain y gwaith ar y ddau brosiect yma yn Aberdyfi:

“Mae’r lanfa yn y Cei yn hollbwysig i nifer fawr o weithgareddau’r harbwr sy’n cyfrannu’n sylweddol at economi leol Aberdyfi. Mae’r cynllun wedi bod yn cael ei ddatblygu ers rhai blynyddoedd ac rwy’n falch o ddweud fod y gwaith bellach wedi ei gwblhau er budd yr holl ddefnyddwyr.



Pont Bryn Llestair

“Roeddwn hefyd yn falch o weld Pont Bryn Llestair ar ei newydd wedd, a dwi’n gobeithio bydd pobl yn manteisio arni er mwyn cael mynd am dro a mwynhau’r ardal brydferth hon.”

Ychwanegodd Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, Julie James: “Wrth i ni fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd, rwy’n falch o fod yn darparu 85% o’r cyllid ar gyfer y gwaith hwn yng Nghei Aberdyfi i Gyngor Gwynedd drwy ein Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol.

“Rhaid i gymunedau arfordirol addasu i lefel y môr yn codi a bydd y cynllun hwn yn helpu i wneud yn union hynny, drwy wella’r amddiffyniad rhag llifogydd ac erydu arfordirol i 20 eiddo yn Aberdyfi.

“Bydd y gwaith hefyd yn darparu buddion ehangach trwy warchod y lanfa, sydd, rwy’n gwybod, yn hollbwysig i’r economi leol.”

**I wybod mwy am y ddau prosiect yma ewch ar [wefan YGC]**

Ymgynghoriaeth
**GWYNEDD**
Consultancy
YGC




Llwyddiant Gwobr TechFest

I wybod mwy am y diwrnod, **ewch ar ein gwefan**




Cynllun Dolgau A487

I wybod mwy am y diwrnod, **ewch ar ein gwefan**




Llun - Bethany, Alicia ac Alfie

I wybod mwy am y diwrnod, **ewch ar ein gwefan**











# NADOLIG LLAWEN
# A BLWYDDYN NEWYDD DDA



